

CYFLE i ddawnsywyr disgo ddangos eu hunain mewn digwyddiad newydd sy'n dod i'r dref lan y môr.

Mae Cyngor Tref y Rhyl i gynnal Retro Rhyl – prynhawn o gerddoriaeth o'r 70au a'r 80au.

Bydd bandiau byw a disgo stryd yn taro'r cywir iawn i siopwyr ac ymwelwyr â'r dref, gan chwarae rhai o'r caneuon gorau o ddau ddegawd o gerddoriaeth.

Bydd y Freak Out Disco Band – band o chwech o Lannau Merswy – yn chwarae tiwns disgo, canu'r enaid a ffync. Bydd Echo Beach – a ystyrir yn un o'r bandiau teyrnged gorau yn y DU i chwarae cerddoriaeth yr 80au – yn cyflwyno set o glasuron.

Cafodd prif ganwr Echo Beach, Ivor Hillman, lwyddiant gyda'i fand The Pierrot Dolls ac mae yn y gorffennol wedi ennill cystadleuaeth Come Dine with Me ar Sianel 4. Bydd Glenn Mitchell o'r Cavernites yn ymuno â'r bandiau ar gyfer disgo stryd rhwng setiau.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James: “Mae Retro Rhyl yn mynd â ni yn ôl mewn amser ar gyfer prynhawn o gerddoriaeth wych. Efallai bod pyrms, padiau ysgwydd a throwsus llydan yn rhan o'n hatgofion bellach, ond mae'r gerddoriaeth yn parhau.

“Mae cerddoriaeth o'r 80au yn cael tipyn o atgyfodiad ar hyn o bryd felly, os yw pobl yn siopa, allan gyda'r teulu neu os ydyn nhw awydd picio draw ac ymuno â ni i ddawnsio a chanu, mae gan Retro Rhyl rywbeth i bawb.”

Retro Rhyl yw'r digwyddiad am ddim diweddaraf gan Gyngor Tref y Rhyl ac mae'n dod yn union ar ôl Calan Mai y Maer a Seafest gyda'r ddau ddigwyddiad yn denu cannoedd o bobl i'r stryd fawr.

“Mae ein digwyddiadau gwanwyn a haf wedi eu hanelu at gefnogi busnesau'r Rhyl, dod â phobl i mewn i'r dref a chreu cyffro. Bydd Retro Rhyl yn ein harwain yn dwt i mewn i fis Awst a dychweliad sioe awyr a gŵyl gerdd yr haf Cyngor Sir Ddinbych, gyda'r ddau ddigwyddiad yn cael eu cefnogi gan Gyngor Tref y Rhyl,” ychwanegodd y Cynghorydd Mullen-James.

Cynhelir Retro Rhyl ar stryd fawr y dref ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 21 o hanner dydd ymlaen.

Diwedd

